# ***Prosbectws***
# ***Ysgol Gynradd  Gymraeg Penderyn***

(Mehefin 2026).


Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn,
Pontprenllwyd,
Penderyn,
Aberdâr,
Rhondda Cynon Taf
CF44 9JW
☏01685 811259
💻Admin@penderynprimary.rctcbc.cymru
www.penderynpri.cymru


**Byddwch Bopeth Gallwch Fod!**

YR YSGOL

| | |
|---|---|
| Math o ysgol: | Ysgol Gynradd Gymraeg |
| Ystod Oedran: | 3 - 11 |

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mr. A. Wood |
| Dirprwy Bennaeth | Mrs N Thomas |
| Cadeirydd Llywodraethwyr | Mrs P Oliver |
| Rhif Ffôn: | 01685 811259 |
| E-bost | Admin@penderynprimary.rctcbc.cymru |
| Gwefan: | http://www.penderynpri.cymru/ |

Awdurdod Lleol

Rhondda Cynon Taf,
Tŷ Trevithick,
Abercynon,
Aberpennar
CF45 4UQ.
Ffôn: 01443 744005



**Croeso i Brosbectws Ysgol Gynradd Penderyn**. Yn Ionawr 2007 adeiladwyd ysgol newydd ar safle Ysgol Penderyn gan yr awdurdod. Mae amrywiaeth o ddarpariaeth ar gael gan gynnwys lleoliad chwarae pob tywydd, coedwig a lle diogel i'r plant chwarae. Mae ddigon o gyfleusterau a thoiledau ar gyfer y nifer o blant. Ein nod yw rhoi amrywiaeth o brofiadau mewn awyrgylch diogel ac i wneud penderfyniadau iach.

**Os oes unrhyw gwestiynau neu os oes ymholiadau pellach plîs cysylltwch gyda ni**

**Diogelwch Ysgol: Materion Iechyd a Diogelwch.**

Gofynnir yn garedig i ymwelwyr a rhieni nodi'r canlynol:

- rhwystrau parcio ar y ffordd ger yr ysgol;
- yr angen i gadw'r mannau "perygl" yn glir (wedi eu marcio yn felyn) a'r safle bws;
- Plîs rhowch wybod i'r dderbynfa pryd rydych yn cyrraedd yr ysgol. (Mae mynediad i'r ysgol drwy ganu'r gloch wrth y Dderbynfa). Ar ddechrau'r dydd bydd aelod staff yn cwrdd â'r plant wrth y brif fynedfa.

**NI CHANIATEIR CERBYDAU AR IARD YR YSGOL HEB GANIATÂD Y PENNAETH.**

**Trefniadau Derbyn Plant.**

**Mae pob derbyniad plant yn cael eu gweinyddu gan yr Awdurdod Lleol.**

Ar y foment mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol wedi eu trydydd pen-blwydd.

- Mae llyfr 'Diddordeb Gyrru Plant i'r Ysgol' yn y swyddfa. Mae enwau'r plant yn cael ei roi yn y llyfr. Yn ystod y flwyddyn cyn i'r plant ddechrau yn yr ysgol bydd y Sir yn hysbysu rhieni o'r broses derbyn plant i'r ysgol ar ffurf electroneg. Rhaid dychwelyd hwn i RCT.
- Rydym yn annog i ddod a'ch plant i'r ysgol ar ymweliad i'r Meithrin. Gall hyn eu gwneud drwy drafod gyda'r Pennaeth neu'r Athrawon Meithrin.

**Trefniadaeth Ysgol.**

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 blwydd oed. Addysg trwy gyfrwng Y Gymraeg. (Dysgir Saesneg yn ffurfiol i blant Blwyddyn 3 - 6).

Rydym yn cymryd balchder bod Y Gymraeg yn cael eu defnyddio a'i ddatblygu fel rhan naturiol o iaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhan o'r Siarter Iaith sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.

**Trefn Dosbarthiadau 2025/2026.**

| Dosbarth | Athrawon |
|---|---|
| Meithrin | Miss G Butler |
| Dosbarth Derbyn | Mrs B Harris |
| Dosbarth Blwyddyn 1 | Mrs n Thomas (Dirprwy Bennaeth) |
| Dosbarth Blwyddyn 2 | Mrs J Porter |
| Dosbarth Blwyddyn 3 | Mrs C Davies |
| Dosbarth Blwyddyn 4 a 5 | Mrs S Collins |
| Dosbarth Blwyddyn 5 a 6 | Mrs M Jones |

Oherwydd natur yr ysgol fe fydd adegau pryd byddwn yn gorfod rhannu dosbarthiadau. Bydd hyn yn cael eu gwneud yn sensitif gan gymryd fewn i ystyriaeth oedran plentyn, gallu, aeddfedrwydd a grwpiau ffrindiau. Mae cefnogaeth yn cael ei roi i'r dosbarthiadau gan carfan o staff ategol profiadol sy'n helpu yn y dosbarth a thu allan i'r dosbarth.

**Ein Hamcanion a'n Nodau Addysgol.**

Mae'n hanfodol bod ein plant yn derbyn llawer o foddhad a bodlonrwydd o'r profiadau a ddaw i'w rhan drwy yrfa ysgol. Pryd fydd hyn wedi ei gyflawni bydd agwedd iach at ddysgu yn gyffredinol wedi ei sefydlu.

Rydym yn ymgeisio creu amgylchedd sy'n ofalgar, yn hapus ac yn gyffrous, a'r amgylchedd honno yn llawn diddordeb a her. Pan fydd hyn wedi cael ei gyflawni, fe ddylai pob plentyn ddatblygu yn ôl ei allu, a

hefyd, ei anghenion personol ei hunan. Rhoddir cyfle i bob plentyn i ddatblygu'n gymdeithasol, yn emosiynol, yn gorfforol, yn ddeallus, yn foesol a hefyd yn esthetig. Bydd hyn yn galluogi'r plentyn i symud ymlaen i'r cam addysg nesaf, gyda hyder ac awydd i ddysgu.

Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i adeiladu ar **bedwar diben y cwricwlwm** i ddysgwyr ddod yn:

**- Dysgwyr Uchelgeisiol a Galluog.**
**- Cyfranwyr Mentrus a Chreadigol.**
**- Dinasyddion Cymru a'r Byd â gwybodaeth foesegol.**
**- Unigolion iach a hyderus.**

Gelwir meysydd newydd y cwricwlwm yn **Feysydd Dysgu a Phrofiad**, sef:
**- Iechyd a Lles.**
**- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.**
**- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.**
**- Mathemateg a Rhifedd.**
**- Celfyddydau Mynegiannol.**
**- Dyniaethau.**

Mae pob un o'r meysydd hyn yr un mor bwysig â'i gilydd ac yn gydgysylltiedig gyda'r meysydd isod sydd i'w datblygu ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad:
- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Mathemateg a Rhifedd.
- Cymhwysedd digidol,

O fewn y Cwricwlwm i Gymru mae tri pwynt yng ngyrfa y plant gyda ni:

Cam Cynnydd 1: Meithrin a Derbyn.
Cam Cynnydd 2: Blynyddoedd 1, 2 a 3.
Cam Cynnydd 3: Blynyddoedd 4, 5 a 6.

Yn anffodus, oherwydd maint yr ysgol nid yw ein dosbarthiadau yn disgyn i adrannau bach taclus.

Mae'r cwricwlwm newydd yn seiliedig ar gontinwwm dysgu wrth i ddisgyblion symud ymlaen.

Fe ddylai unrhyw gwestiwn a chonsyrn am y Cwricwlwm ei drafod gyda'r Pennaeth.

**<u>Diogelwch Plant</u>**
Mae'n rhaid i ysgolion gwneud trefniadau i ddiogelu lles plant. Mi ddylai rhieni a gofalwyr wybod bod yn rhaid i staff basio ymlaen unrhyw wybodaeth sydd yn codi consyrn am les, gan gynnwys risg o esgeulustra, corfforol, emosiynol neu rywiol. Mae Ysgol Penderyn yn rhoi blaenoriaeth diogelwch a lles y plant i gyd, fel sydd i'w gweld yn llawlyfr Trefniadau Diogelwch Plant Cymru Gyfan.

Yn yr ysgol mae 6 Swyddog Diogelwch sydd gyda chyfrifoldeb am holl agweddau diogelwch plant ac yn rhoi cyngor a chefnogaeth i staff eraill.

Rhain yw:

| | |
|---|---|
| **Mr A Wood:** | **Pennaeth** |
| **Mrs N Thomas:** | **Dirprwy Bennaeth** |
| **Miss B Benney:** | **Athrawes** |
| **Mrs M Amos:** | **Clwb Brecwast ac amser cinio** |
| **Mrs A May:** | **Clerc yr Ysgol** |
| **Mrs C Davies:** | **Athrawes** |

Mae gan yr ysgol llywodraethwraig sydd gyda chyfrifoldeb am Ddiogelwch Plant (**Mrs P Oliver**). Mae'n sicrhau bod gan yr ysgol polisi sydd yn cydymffurfio a'r canllawiau Trefniadau Diogelwch Plant Cymru

Gyfan (2008), a bod yn rhaid i staff ddilyn y canllawiau ble mae unrhyw ddrwgdybiaeth neu gonsyrn o gam-drin plant.

Os rydym yn derbyn gwybodaeth sydd yn awgrymu bod plentyn wedi cael neu mewn risg o gael eu cam-drin mae cyfrifoldeb arnom i basio'r wybodaeth ymlaen i'r Gwasanaeth Cymdeithasol. Does dim disgresiwn gan y pennaeth yn hyn. Ein blaenoriaeth yw consyrn am iechyd a lles y plentyn. Ble mae consyrn cyffredinol byddwn yn trafod y rhain gyda chi i weithio ar y cyd i wella'r sefyllfa. Serch hyn, ar adegau bydd angen trafod gydag asiantaethau eraill cyn siarad gyda chi. Os oes angen gwneud hyn hoffwn eich sicrhau byddwn yn trafod gyda chi er lles eich plentyn ble'n bosibl. Os bydd consyrn am y Pennaeth rhaid cysylltu gyda Chadeirydd Y Llywodraethwyr (Mrs P Oliver).

**Plant Sydd yn Derbyn Gofal**
Y Pennaeth (Arwel Wood) sydd gyda'r cyfrifoldeb am ddatblygiad a lles Plant Sydd yn Derbyn Gofal i roi cefnogaeth a chydraddoldeb i bob plentyn.

**Defnydd o'r iaith Gymraeg.**
Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. Mae pob gweithgaredd yn cael eu gwneud drwy'r Gymraeg. Caiff Saesneg eu dysgu o flwyddyn 3 ymlaen.

**Iard Y Meithrin.**



**Addysg Uwchradd**
Mae'r gan amlaf yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Rhydywaun.

**Diwrnod Ysgol**
**Atgoffir rhieni ddim i fynd a'i ceir i iard yr ysgol**

Mae'r ysgol yn dechrau yn brydlon am 9.00 a.m. pob dydd.

| | | |
|---|---|---|
| Egwyl fore: | | 10.30 a.m. i 10.50 a.m. |
| Amser cinio: | Cyfnod Sylfaen | 12.00pm |
| | Adran Iau | 12.15 p.m. |

| | |
|---|---|
| Dosbarthiadau Prynhawn yn dechrau | 1.15 p.m. |
| Egwyl Prynhawn | 2.45 i 3p.m. |
| Diwedd Diwrnod Ysgol | 3.30 p.m. |

**Ni ddylai unrhyw blentyn adael tir yr ysgol heb roddi gwybod i aelod o staff.**

**Gweithgareddau Ysgol**

Rydym yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau ac fe restri'r rhai ohonynt isod:

- Nofio, athletau, chwaraeon.
- Gwersi Fiolín.
- Cystadlaethau a chlybiau Urdd
- Cyngherddau
- Ymweliadau preswyl i Llain.
- Ymweliadau Addysgiadol
- Cysylltiadau gyda'r Gymuned.

**Gwybodaeth Gyffredinol**

**Prydlondeb a Phresenoldeb.**

Plîs gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae plant sydd yn cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd yn colli profiadau pwysig o fywyd ysgol. Hefyd fe allai olygu bod plant yn cael embaras ac yn gallu cael gofid. Fel gall hyn hefyd cael adwaith ar addysg plentyn. Ni ddylai unrhyw blentyn gyrraedd yr ysgol cyn 8.45 y.b. Os yw eich plentyn yn absennol o'r ysgol plîs ffoniwch yr ysgol i roi eglurhad - os nad yw hyn yn cael eu gwneud fe all yr absenoldeb cael eu trin fel absenoldeb hab ganiatâd.

**Clwb Brecwast**

Mae gan yr ysgol Glwb Brecwast sydd ar agor o 8:15yb i 8:30yb i roi dewis iachus i'r plant ar ddechrau'r dydd.

**Cinio Ysgol**

Mae cinio ysgol yn cael eu paratoi yn yr ysgol.

Os rydych yn gwybod bydd eich plentyn yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol plîs ffoniwch yr ysgol erbyn 9:30am.

**Ymweliadau Rhieni**

- Mae cyfle i drafod gydag athrawon yn rheolaidd pryd caiff rhieni'r cyfle i drafod gydag athro / athrawes ddosbarth eu plentyn.
- Mae croeso i rieni fynychu'r ysgol hefyd i gael cefnogaeth neu i drafod gyda'r athro / athrawes ddosbarth.
- Mae croeso i rieni ddod i'r ysgol ar unrhyw adeg sydd yn gyfleus gyda'r Pennaeth drwy apwyntiad.

**CYMDEITHAS RIENI, FFRINDIAU AC ATHRAWON**

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rieni ac Athrawon brwdfrydig iawn sydd yn casglu arian yn rheolaidd i gefnogi gwaith yr ysgol. Mae amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu datblygu megis Ffair Ysgol, disgo's ac ati. Cynhelir cyfarfodydd yn yr ysgol yn gyson. Mae croeso cynnes iawn i bob rhiant. Edrychwn ymlaen at eich cwmni.

**Ardal Chwarae Aml-Ddefnydd (MUGA)**



**Adroddiadau Ysgol**
Ar ddiwedd flwyddyn academaidd bydd pob plentyn yn yr ysgol yn derbyn adroddiad ysgrifenedig. Bydd hefyd adroddiadau interim yn dymhorol a nosweithi agored.

**Gwisg Ysgol.**
Rydym yn annog pob plentyn i wisgo'r wisg ysgol. (Ern ad yw hyn yn statudol yn y sector cynradd).

Bechgyn: Trowser llwyd, siwmper royal blue, crys polo glas golau.
Merched: Sgert lwyd, siwmper neu gardigan royal blue, crys polo glas golau.

**Plîs gwnewch yn siŵr bod enw eich plentyn ar bob dilledyn.**

**Dillad Addysg Gorfforol**
Bydd eich plentyn angen bag, gyda'r enw yn glir arno, yn cynnwys siorts, fest neu grys T, esgidiau addas.

**Tracwisg**
Buasai'n llesol pe bai plant Cyfnod Sylfaen yn gwisgo tracwisg i'r ysgol ar ddyddiau Addysg Gorfforol i hwyluso newid.

**Gemwaith**
Does dim gemwaith i'w wisgo yn yr ysgol. Fe all plant gyda chlust dlysau wisgo stydiau yn unig. Rydym yn annog plant ddim i wisgo breichled, modrwyon na chadwyn.

**Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb:**
Cyflwynir agweddau fel rhan o astudiaethau personol, iechyd a chymdeithasol. Rydym yn datblygu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar draws nifer o feysydd cwricwlwm. Trafodir cwestiynau a gwybodaeth mewn dull sensitif sydd yn ystyried oedran ac aeddfedrwydd y plant. Mae cyfle i blant Flwyddyn 6 drafod gyda nyrs yr ysgol.
Gofynnir yn gynnes i rieni sydd am drafod yn bellach i gysylltu â'r prifathro.

**PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY).**
Rydym yn edrych ar ddatblygiad pob plentyn. Os fydd plentyn yn cael anawsterau dysgu, fe fydd yr athro/awes ddosbarth yn trafod gyda'r rhieni cyn gynted â phosibl a bydd record o gonsyrn yn cael eu llenwi. Gweithredir gan yr ysgol Polisi Anghenion Addysg Ychwanegol sydd yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth a strategaethau'r Llywodraeth. Bydd yr ysgol yn trafod gyda rhieni'r posibiliad o gymorth ychwanegol yn yr ysgol ble'n bosibl. Os yn briodol byddai hyn yn golygu posibilrwydd o ddefnyddio asiantaethau allanol fel Seicolegydd Addysg y Sir. Fe all hyn arwain at ragor o ymchwilio a chefnogaeth wedi trafodaethau gyda rhieni. Miss C Jones sydd gyda chyfrifoldeb am Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**POLISI CYFLEOEDD CYFARTAL (yn cynnwys darpariaeth plant anabl)**

Anelir yr ysgol at beidio gwrthwynebu unigolion, boed aelod o staff, disgybl, rhiant, llywodraethwyr oblegid rhesymau rhyw, hiliogaeth, lliw, crefydd, cenedl, gwreiddiau ethnig gallu ac anabledd. Ceir copi o'r polisi perthnasol gan y pennaeth.
Does dim hawl gan yr ysgol i wrthod plentyn ar sail anabledd. Rydym yn cynnig cwricwlwm llawn i ddisgyblion ag anabledd. Byddwn yn ystyried addasiadau yn ôl y gofyn. Mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda hygyrchedd plant ac oedolion sydd gyda symudedd cyfyngedig.

**<u>POLISI CODI TAL YR YSGOL</u>**
Mae Ysgol Penderyn yn cynnig holl addysg Cwricwlwm i Gymru am ddim. Mae rhai gweithgareddau ychwanegol yn codi ychydig o dal er mwyn cynorthwyo'r cwricwlwm.
Bydd gweithgareddau pellach megis ymweliadau addysgol yn gofyn am gyfraniadau gwirfoddol. Ymgynghorir rhieni gan lythyr bob tro. Ni rwystrir neb wrth ymuno a thaith addysgol am resymau ariannol. Cyhoeddir tal am gyrsiau preswyl fel sydd angen. Ceir manylion llawn yn y ddogfen Polisi Codi Tal Yr Ysgol.

**<u>CYD-ADDOLI / ADDYSG GREFYDDOL</u>**
Cynhelir Gweithgaredd Cyd – Addoli yn ddyddiol fel dosbarth, adran ysgol neu fel ysgol gyfan. Yn achlysurol bydd siaradwyr allanol yn dod i arwain y plant wrth iddynt addoli.
Gofynnir i rieni sydd ddim am dderbyn gwasanaeth Cristnogol cysylltu â'r prifathro yn ysgrifenedig. Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau ac rydym yn rhoi cyfleoedd i blant ddysgu am grefyddau eraill yn ogystal a Christnogaeth. Cysylltwch gyda'r Pennaeth am ragor o fanylion.

**<u>GOFAL BUGEILIOL</u>**
Mae pob athro/ athrawes ddosbarth yn gyfrifol am y plant sydd yn y dosbarth. Y prifathro sydd â chyfrifoldeb am yr holl ysgol.
Pan fydd eich plentyn yn sâl, neu wedi cael damwain fechan, fe fydd aelod o'r staff yn rhoi sylw i'r plentyn. Byddwn yn cysylltu â'r rhieni os oes rhaid a bydd y ddamwain yn cael ei nodi yn y Llyfr Ddamweiniau. **<u>Mae'n holl bwysig felly, i sicrhau bod eich cyfeiriad cywir, rhif ffôn gartref a'r gwaith gennym yn enwedig os ydych wedi symud tŷ neu newid swydd. Gofynnir yn garedig hefyd am rif ffôn argyfwng.</u>**

**<u>IECHYD</u>**
Pan fo plentyn yn sâl neu wedi cael damwain yn yr ysgol
*cysylltir â'r rhieni
*os na ellir cysylltir, a'r salwch/damwain yn peri pryder cysylltir â'r Ganolfan Iechyd neu'r ysbyty.

**Gofynnir i rieni gadw plentyn adref am 48 awr os yw wedi dioddef dolur rhydd neu anhwylder ar ei stumog.**

**<u>GWYLIAU YSGOL A DYDDIAU CAU</u>**
Caiff y rhieni rhestr wyliau ar ddechrau bob blwyddyn academaidd.
Ceir rhybudd ymlaen llaw am unrhyw ddyddiau eraill pan fydd yr ysgol ar gau e.e. Hyfforddiant Mewn Swydd i Athrawon.
Gwneir bob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor yn ystod tywydd garw neu ddigwyddiadau sydyn (colled o drydan, dwr a.y.b.). Serch hynny, gofynnir yn garedig i rieni sicrhau bod gan yr ysgol rhif ffôn neu enw cysylltiad ar bob adeg.

**<u>DISGYBLAETH</u>**
Disgwylir i blant cydymffurfio gyda rheolau'r ysgol ar bob adeg. Rhaid gwneud hyn er mwyn sicrhau rhediad esmwyth yr ysgol, osgoi damweiniau, annog ymddygiad da / cwrtais a chadw'r ysgol yn drefnus.
Mae meddylgarwch, ystyriaeth a chwrteisi yn briodweddau pwysig i ni. Maent yn tanlinellu ethos yr ysgol. Ein nod ni yw datblygu hunan - ddisgyblaeth a pharch pob plentyn.
Mewn achos o ddiffyg disgyblaeth ddifrifol bydd yn angenrheidiol cael cydweithrediad rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn datrys y broblem.
Rydym yn annog ein plant i fod yn gwrtais a chyd-weithio yn dda gyda chyfoedion a staff.

**ENGHREIFFTIAU O REOLAU YSGOL**

- Pan fydd y tywydd yn ffafriol, bydd pob plentyn yn chwarae ar yr iard yn ystod pob egwyl ac amser cinio oni ddywedwyd yn wahanol wrthynt.
- Ni chaniateir dringo waliau na bariau;
- Pan fydd y tywydd yn wael, bydd y plant yn aros yn eu dosbarthiadau. Ni chaniateir ymddwyn yn afreolus;
- Anogir y plant i fynd i'r toiledau amser egwyl a chinio er mwyn osgoi torri ar draws y dosbarth;
- Dyletswydd pob plentyn yw rhoi gwybod i'r athro ar ddyletswydd neu'r menywod sy'n goruchwylio ganol dydd os cwyd unrhyw broblem;
- Ni chaniateir Losin / gwm / diodydd egni yn yr ysgol o gwbl;
- Anogir y plant i gerdded yn dawel ar hyd y coridor;
- Disgwylir i bob plentyn rhoi sbwriel yn y bin;
- Dylai'r plant fod yn gwrtais i bob aelod staff ;
- Ni ddylai plant ddod a nwyddau gwerthfawr i'r ysgol. Os yw ffon symudol yn dod i'r ysgol rhaid ei roi yn y swyddfa.
- Ni chaniateir gemwaith. Caniateir "clustlysau styd" yn unig OND rhaid eu tynnu i ffwrdd ar gyfer sesiynau addysg gorfforol.

**Pwysleisiwn mai parch yw byrdwn ein polisi disgyblaeth, hunan barch, parch at eraill a pharch at eiddo.** Nid yw'n dderbyniol amharchu eraill trwy:-
* ddefnyddio geiriau sy'n brifo
* ddwyn eiddo
* difwyno eiddo
* bwrw eraill
* herio aelod o staff
* dweud celwydd
* rhegi

Ni chaniateir i ddisgybl adael campws yr ysgol. Cysidrwn fod bwlio geiriol, corfforol a gadael plentyn allan o gylch chwarae gan beri anhapusrwydd yn drosedd gwrth cymdeithasol. Rydym yn pwysleisio i'r plant ddweud os oes ganddynt gonsyrn.

**<u>Sut y gweithredir y polisi</u>**
* atgoffa'r plant ynglŷn â'r rheolau
*disgyblu'n llafar
Gall plentyn golli ffafrau megis egwyl/ymweliadau os bydd ymddygiad annerbyniol. Gwahoddir y rhieni i'r ysgol i drafod y broblem os bydd diffyg ymddygiad derbyniol parhaus yn amlygu ei hun mewn disgybl. Pan fo disgybl yn gyfrifol am ddifrodi eiddo ysgol bydd rhaid i'w rieni ddigolledu'r ysgol am y gost o atgyweirio neu ail osod.

Gwahardd:
Fel y cam olaf rydym yn datblygu'r broses o wahardd plentyn. Dilynir canllawiau pwyllgor Rhondda Cynon Taf ynglŷn â gwahardd disgybl o'r ysgol. (Manylion i'w cael o'r ysgol)

**<u>GWEITHGAREDDAU'R YSGOL</u>**
Mae'r ysgol yn cynnig nifer o weithgareddau a phrofiadau gwahanol i'r plant, rhai yn ystod y dydd, rhai yn allgyrsiol. Maent yn amrywio o fod yn academaidd neu'n gymdeithasol. Credir yn gryf fod ganddynt lle pwysig ym mywyd y plentyn a'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau preswyl i Llain.

Mae'r ysgol yn annog agwedd aml ryw tuag at holl weithgareddau addysg gorfforol. Cymryd rhan yw'r nôd o hyd. Rhoddir nifer o gyfleoedd i blant mwynhau profiadau a gwella fel unigolion.

**<u>MEDDYGINIAETH</u>**
Bydd yr ysgol yn gyfrifol am roi peth moddion i blentyn o fewn rheswm. (Yn dibynnu ar yr amgylchiadau - i'w benderfynu gan y Pennaeth). Fe fydd angen gadael i'r ysgol wybod trwy lythyr beth yw'r moddion, i beth, faint sydd i'w cymryd a phryd.

Os oes gan eich plentyn cyflwr meddygol parhaol, dylech gysylltu â'r pennaeth.

**DRIL TAN**
Bydd y staff a'r plant yn cymryd rhan mewn "dril tan" o leiaf unwaith bob tymor.

**DULL GWEITHREDU CWYNION**
Mae gan Bwyllgor Addysg Rhondda Cynon Taf drefniant i weithredu cwynion yn gysylltiedig â chwricwlwm yr ysgol ac unrhyw fater perthnasol. Gweithredir Polisi Trefn Cwyno gan yr ysgol hefyd. (Polisi ar gael ar y wefan).

Gweithredir fel hyn:
Dylid cysylltu â'r athro/athrawes er mwyn ceisio datrys y gwyn yn anffurfiol. Os methwyd, gall rhiant ysgrifennu yn ffurfiol at -

a) Y Pennaeth
b) Cadeirydd Y Llywodraethwyr (Plîs gyrrwch lythyr i'r ysgol i'w basio ymlaen i'r Cadeirydd).

Os ceir methiant yma eto a dymuna'r achwynwr barhau a'r gwyn, yna trefnir gwrandawiad ffurfiol o Gorff Llywodraethwyr yr Ysgol.

**DIWEDDGLO**
Gobeithio yn fawr fod y wybodaeth yma wedi ateb eich cwestiynau ynglŷn â threfn a bywyd ein hysgol ni. Nid oes un llawlyfr yn gallu rhoi holl flas o naws ysgol ar bapur, felly peidiwch â phetruso i wneud cyfweliad er mwyn ymweld â ni. Cewch weld yr ysgol wrth ei gwaith a phrofi'r naws hapus, brwdfrydig eich hun. Croeso i chi!

*Mae'r wybodaeth a gyhoeddir yn y llawlyfr hwn yn gywir wrth ei drefnu, Mawrth 2025.*
*Ni ddylid cymryd yn ganiataol na fydd newidiadau ar y trefniadau yn y dyfodol.*